Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Panteg
Heol Yr Orsaf
Tre Griffith
Pont-y-Pŵl
Torfaen
NP4 5JH

02/11/2026

Annwyl arweinwyr a staff

Ymweliad Interim: Hydref 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Panteg yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas â dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Yn ystod yr ymweliad, cawsom gyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad ag arweinwyr, disgyblion a staff, ystyried dogfennaeth, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

Ffocws yr ymweliad

Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu a datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol

- Mae arweinwyr wedi ymateb yn bwrpasol i'r argymhelliad. Maent wedi adolygu arferion, casglu barn rhieni a disgyblion a chydweithio â staff i ddatblygu gweledigaeth gytûn a fframwaith cyffredin ar gyfer datblygu annibyniaeth disgyblion.
- Mae staff wedi elwa ar ddysgu proffesiynol gwerthfawr sydd wedi cryfhau eu dealltwriaeth o ddysgu annibynnol a sut i'w datblygu'n fwriadus drwy ddulliau addysgu a dysgu effeithiol.
- Mae arweinwyr wedi datblygu fframwaith sy'n nodi dilyniant clir a systematig mewn medrau annibyniaeth, gan gynnwys gwytnwch, cydweithio a dyfeisgarwch. Mae hyn yn helpu staff i ddatblygu annibyniaeth disgyblion yn gyson ac yn gynyddol ar draws yr ysgol.
- Mae staff yn defnyddio'r fframwaith yn llwyddiannus er mwyn cael effaith gadarnhaol ar hyder a gwydnwch disgyblion. Mae disgyblion yn fwy parod i ymateb i heriau, cymryd risgiau yn eu dysgu a chydweithio'n bwrpasol â'u cyfoedion, gan eu helpu i ddatblygu'n ddysgwyr mwy annibynnol a hunangynhaliol.
- Mae staff yn defnyddio iaith a therminoleg gyffredin ac yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion wneud dewisiadau a myfyrio ar eu dysgu.

- O ganlyniad, mae disgyblion yn cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu, yn cymhwyso dysgu blaenorol yn fwy annibynnol ac yn dibynnu llai ar gymorth oedolion.
- Mae arweinwyr yn parhau i fireinio a datblygu'r ddarpariaeth i hyrwyddo annibyniaeth ymhellach, er enghraifft drwy gryfhau'r amgylchedd dysgu a rôl oedolion.

Sicrhau lefel briodol o her i gefnogi'r disgyblion i ymestyn eu medrau hyd eithaf eu gallu

- Mae gan arweinwyr weledigaeth uchelgeisiol er mwyn cefnogi bob disgybl, o'u mannau cychwyn amrywiol, i gyflawni hyd orau eu gallu. Caiff y weledigaeth ei chyfathrebu'n ystyrlon gydag ystod o bartneriaid, sydd, yn ei dro, yn cefnogi disgyblion i ddysgu ar y lefel her sy'n briodol ar gyfer eu cam datblygu.
- Mae arweinwyr yn gweithredu prosesau hunanwerthuso cadarn sy'n olrhain a mesur cynnydd disgyblion yn drylwyr. Mae staff yn defnyddio'r wybodaeth yn fedrus i fireinio ac addasu'r ddarpariaeth er mwyn diwallu diddordebau ac anghenion dysgu'r disgyblion dros amser.
- Trwy gyfleoedd dysgu proffesiynol a chydweithio cyson, mae staff wedi llunio Map Unedau Llythrennedd a Cherrig Milltir gwerthfawr sy'n gosod disgwyliadau clir o ran dilyniant ym medrau llythrennedd disgyblion. Mae hyn, gan gynnwys y Clwb Clebran, yn cyfrannu at gryfhau'r addysgu sy'n cefnogi cynnydd cyson ym medrau llafar a llythrennedd disgyblion.
- Mae gan staff ddisgwyliadau uchel ar gyfer pob disgybl, gan gynnwys y rhai sy'n mynychu Yr Academi. Maent yn adnabod anghenion lles a dysgu'r disgyblion yn dda sy'n hyrwyddo diwylliant cynhwysol ar draws yr ysgol.
- Trwy'r ddarpariaeth werthfawr sy'n cael ei chynllunio'n fedrus gan staff, mae disgyblion yn datblygu eu gallu i ddyfalbarhau pan maent yn wynebu anawsterau a chymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu. Trwy hyn, mae disgyblion yn dwysáu eu dealltwriaeth o'r broses ddysgu yn effeithiol.
- Trwy ddulliau addysgu a dysgu cyson staff, caiff disgyblion gyfleoedd buddiol i gynllunio, gwerthuso ac ailddrafftio eu gwaith i ymateb i adborth.
- Mae staff yn darparu ystod eang o glybiau sy'n rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu ac ymestyn ystod dda o fedrau a doniau personol. Mae hyn yn cyfrannu'n fuddiol at eu cefnogi i ymgolli a mwynhau'r profiadau dysgu ysgogol.

Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6782327

Yn gywir



Liz Miles
Cyfarwyddwr Cynorthwyol

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru
www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.